


# MANNAU I'W LLOGI

YSBRYDOLEDIG • ARLOESOL • EICONIG

CANOLFAN MILENIWM CYMRU

# CROESO

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yng nghalon Bae Caerdydd, yn edrych allan tuag at Benarth, wedi'i lleoli drws nesaf i'r Senedd. Bob blwyddyn rydyn ni'n denu dros 1.4 miliwn o ymwelwyr, gyda nifer helaeth ohonynt yn dod i un o'r cynyrchiadau theatraidd hudol, gwyliau, sioeau cabaret, gweithdai creadigol neu brofiadau digidol rydyn ni'n eu cynnig. Mae eraill yn dod drwy ein drysau i gyfarfod ffrindiau a chydweithwyr yn Ffwrnais, ein bar-caffi newydd, neu'n galw heibio ar gyfer ymarfer neu gyfarfod sgript greadigol. Mae ein hadeilad yn hafan greadigol fyrlymus sy'n cynnig awyrgylch unigryw ar gyfer unrhyw ddigwyddiad.



## A WYDDOCH CHI...

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

Fel enillwyr Gwobr Effaith IWFM am Weithredu Cadarnhaol ar y Newid yn yr Hinsawdd, rydyn ni'n parhau i weithio tuag at ein targed sero net

Rydyn ni'n elusen, sy'n golygu bod eich arian yn ein helpu ni i feithrin artistiaid a phobl ifanc yng Nghymru

Mae yna gysylltiadau trafnidiaeth gwych i Fae Caerdydd yn ogystal â meysydd parcio a gwestai

Mae taith mewn cwch i weld golygfeydd ysblennydd y Bae yn ffordd wych o dreulio amser gyda'ch tîm neu'n syniad da ar gyfer sesiynau rhwydweithio

Mae Bad Wolf, BBC, ITV a llawer o gwmnïau eraill wedi ffilmio golygfeydd yma

Mae ein hadeilad 7.5 erw yn grochan o berfformiadau hudolus, lle mae sêr y West End yn camu i'r llwyfan yn wythnosol


Rydyn ni'n cynnig teithiau cefn llwyfan yn ychwanegol fel bod cyfle i'ch gwesteion deimlo gwefr yr adeilad yn ei holl ogoniant

# TAMAID O HUD...


THEATR DONALD GORDON

## HWB CREADIGOL


GLANFA


FFASÂD

## LLEOLIAD GWYCH





CABARET


COPR

## BYWIOG A CHYNHWYSOL

## AWEN THEATRAIDD


BOCS


# FFWRNAIS














**Mae ein bar-caffi a weddnewidiwyd yn ddiweddar yn ymestyn ar hyd blaen yr adeilad. Yn olau, eang a soffistigedig, mae Ffwrnais yn cynnig y cynnyrch gorau o bob rhan o Gymru.**

Mae'r gofod yn cynnwys byrddau cymunol hir ar gyfer cydweithio, lolfa gyda seddi cyfforddus sy'n berffaith ar gyfer derbyniadau â diodydd, a chwtsh clyd sy'n lleoliad delfrydol ar gyfer digwyddiadau llai, megis clwb darllen. Mae rhaglen o arddangosfeydd newidiol yn cyflwyno artistiaid o Gymru ac sy'n gweithio yng Nghymru, ac fe gynlluniwyd y clustogau arbennig gan wehydd lleol, Llio James.

Fe ddefnyddir Ffwrnais yn aml ar gyfer ffilmio golygfeydd megis meysydd awyr, mynedfeydd ac ysbytai, ac mae'n lleoliad gwych ar gyfer lletygarwch ar ôl seremonïau gwobrwyo a chynadleddau a gynhelir yn Theatr Donald Gordon.

## GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Derbyniad/Arddangosfa: 400
Gwledda: 160

**Dimensiynau:** 609m$^2$

**Cyfleusterau technegol:**
Wi-Fi

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Ystafell gotiau

# BOCS





Mae Bocs yn ofod pwrpasol ar gyfer profiadau ymdrochol a realiti estynedig (XR) ac mae wedi'i leoli yn ein hardal gyhoeddus ar y llawr gwaelod. Mae gwybodaeth ar gael ar gais.

### GWYBODAETH BWYSIG

**Capasati:** 15

**Dimensiynau:** 59m²

**Cyfleusterau technegol:** Mae manylebau technegol Bocs ar gael ar gais.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:** Lleoliad cwbl hygyrch sy'n agos at nifer o gyfleusterau.

# GLANFA



**Glanfa yw ein man cyhoeddus mwyaf, ac fe'i defnyddir ar gyfer ystod eang o berfformiadau, digwyddiadau, gosodweithiau celf, gweithgareddau crefft i'r teulu ac arddangosfeydd am ddim, ond mae hefyd yn ardal berffaith ar gyfer derbyniadau, ciniawau a lansiadau preifat. Yn unol â'i enw, mae Glanfa yn gweddu'n berffaith i'w safle ger y glannau, ac mae'n lleoliad unigryw ar gyfer eich digwyddiad.**

Gall Glanfa ddarparu ardal giniawa, lleoliad cyfareddol ar gyfer seremoni wobrwyo i 350 o westeion neu dderbyniad â diodydd i 500, neu gellir hyd yn oed ei weddnewid yn safle anhygoel ar gyfer ffilmio. Mae un peth yn sicr: beth bynnag yw'r digwyddiad, mi fydd yn hollol odidog yn Glanfa.

### GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Theatr: 350
Derbyniad: 500
Gwledda: 350

**Dimensiynau:** 688m²

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Llwyfan, desg sain a sgriniau teledu bychain.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:** Mae ein prif doiledau gerllaw.

# STIWDIO WESTON A'R YSTAFELLOEDD YMARFER







**Mae Stiwdio Weston a'r Ystafelloedd Ymarfer yn lleoliadau clyd sy'n berffaith ar gyfer cynyrchiadau bychain, theatr arobryn a cherddoriaeth fyw wych.**

Mae'r gofodau amlbwrpas yma hefyd yn boblogaidd iawn fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau corfforaethol, gan gynnwys cynadleddau, arddangosfeydd a chyfarfodydd blynyddol sy'n manteisio ar yr awyrgylch, yr acwsteg wych a'r gefnogaeth AV o'r radd flaenaf. Pan fo'r seddi wedi'u tynnu a'u cadw, mae llawr y stiwdio yn mesur 318$m^2$ ac fe ellir ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a phrydau gyda seddi wedi'u gosod mewn arddull cabaret.

Mae'r Ystafelloedd Ymarfer gerllaw yn cynnig gofodau gwych ar gyfer arddangosfeydd, sesiynau grŵp neu arlwyo. Maent yn cysylltu â'i gilydd ac wedi'u lleoli ar Lefel 1, uwchben Glanfa.

## GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Theatr: 250 gyda lle i bedwar person sy'n defnyddio cadair olwyn (gyda lle i ddau gymar yr un) yn yr ardal wastad cyn y rhes gyntaf
Derbyniad: 200
Gwledda: 200
Cabaret: 200
Ystafell Ddosbarth: 60

**Dimensiynau:** 1021$m^2$

**Cyfleusterau technegol:**
Wi-Fi. Llwyfan, desg sain a sgriniau teledu bychain.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r llawr cyntaf. Mae toiled i bobl anabl drws nesaf. Mae ein prif doiledau yn agos, ar y llawr gwaelod.

# COPR



**Mae gan ein lolfa gynnes, soffistiedig a phreifat i aelodau ei bar ei hun a thoiledau neillryw. Gyda'i dodrefn a wnaed â llaw, tecstilau prydferth gan ddylunwyr o Gymru a'i goleuo cynnil, atmosfferig, mae Copr yn lleoliad perffaith ar gyfer derbyniad â diodydd, cinio hamddenol, parti ar ôl sioe neu fel lleoliad ffilmio.**

Mae'n agos i Theatr Donald Gordon, Ystafell Japan ac Ystafell Preseli, felly mae'n hawdd ei defnyddio cyn neu ar ôl y prif ddigwyddiad.

## GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Yn sefyll: 30
Yn eistedd: 22

**Dimensiynau:** 118$m^2$

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Sgriniau teledu gyda'r gallu i gyflwyno PowerPoint.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r llawr cyntaf. Toiledau preifat ac ardal bar.

# CABARET









**Ar benwythnosau, mae Cabaret yn lleoliad disglair a phwrpasol ar gyfer ein rhaglen o ddrag, bwrlésg, comedi, theatr gig a cherddoriaeth fyw. Wedi'i gynllunio i greu profiadau agos-atoch, hygyrch a chofiadwy, mae gan bawb olygfa dda o'r 150 o seddi sy'n amgylchynu'r llwyfan, ac mae bar gwbl weithredol yno.**

Gyda llwyfan unigol, desg sain a goleuo parhaol, yn ogystal â llenni sy'n gallu cael eu hagor yn llawn i ddangos golygfeydd gogoneddus o'r Senedd a'r bae, mae'r gofod amlbwrpas yma yn berffaith ar gyfer sesiynau yoga neu ddosbarthiadau babanod wythnosol, cynadleddau, lansiadau brandiau, partïon pen-blwydd, arddangosfeydd a mwy. Wedi'i leoli ar hyd terfyn yr adeilad, mae gan Cabaret ei fynedfa a'i ffasâd ei hun, ystafell gotiau, toiledau neillryw ac ystafell wisgo i 3–6 person gyda chawodydd cyfagos.

Mae dyluniad bywiog a chreadigol gan Cabaret, sy'n berffaith ar gyfer lluniau Instagram, ac mae'n gwneud y gofod yn berffaith ar gyfer derbyniadau â diodydd a digwyddiadau rhwydweithio.




## GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Yn sefyll: 200
Theatr: 150
Cabaret: 150

**Dimensiynau:** 330m$^2$

**Cyfleusterau technegol:**
Wi-Fi, llwyfan, goleuo a rig sain.

**Arlwyo:**
Bar cwbl weithredol gyda'r gallu i archebu ar-lein os oes angen.
Arlwyo ar gontract allanol.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Toiledau neillryw ac ystafell gotiau.

# YSTAFELL JAPAN






**Mae ein prif ystafell bwrdd ac ardal ar gyfer digwyddiadau preifat wedi'i lleoli ar y mesanîn ar Lefel 3. Mae Ystafell Japan yn fawr ac yn olau, gyda balconi sy'n edrych dros rai o brif dirnodau Caerdydd, sy'n ei gwneud yn berffaith ar gyfer cyfarfodydd bwrdd a chynadleddau bychain.**

Mae toiledau gerllaw ac ardal y tu allan i'r ystafell ar gyfer gosod arlwyaeth. Gellir hefyd llogi Copr, ein lolfa breifat i aelodau ar Lefel 1, ar gyfer cinio neu ddiodydd ar ôl y cyfarfod.

### GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Yn sefyll/Lletygarwch: 45
Theatr: 70
Cabaret: 40
Ystafell Bwrdd: 24

**Dimensiynau:** 74m²

**Cyfleusterau technegol:**
Wi-Fi a sgrin arddull cynhadledd gyda thracio fideo o gynrychiolwyr yn yr ystafell.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r trydydd llawr. Mae toiled i bobl anabl drws nesaf.

# YSTAFELL PRESELI



**Mae ei chyfuniad o ofod a golau yn gwneud Ystafell Preseli yn ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau preifat a chorfforaethol. Rydyn ni'n ei defnyddio'n bennaf fel gofod ymarfer ac ar gyfer creu gwaith artistig newydd.**

Gyda'r gwaith celf arbennig 'Colourfall' gan yr artist o Gymru, Amber Hiscott, yn rhan ohoni, mae wal wydr yr ystafell yn gadael i olau lifo i mewn o'r ardal Angorfa islaw, yn ogystal â golau naturiol o ffenestri allanol yr ystafell.

Dyma ein hystafell gyfarfod fwyaf, ac mae hi wedi'i lleoli ar Lefel 2, gerllaw ein Bar Awen, sydd dan arysgrif yr adeilad – y lle perffaith am ginio neu ddiodydd ar ddiwedd y dydd, a lleoliad da i roi standiau arddangoswyr sy'n gysylltiedig â chynhadledd.

### GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Theatr: 130
Derbyniad: 80
Gwledda: 80
Cabaret: 70
Ystafell Bwrdd: 30
Ystafell Ddosbarth: 28

**Dimensiynau:**
Hyd: 13.9m
Lled (pen cul): 7.92m
Lled (pen llydan): 11m

**Cyfleusterau technegol:**
Wi-Fi. Gellir gosod llwyfan bach, darllenfa, system PA, taflunydd a sgrin yn yr ystafell fel sydd angen.


**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r ail lawr.

# BARIAU AWEN, HORIZONS A STONES



**Mae rhywbeth go arbennig am gynnal digwyddiad yn un o'n bariau theatr. Enwir pob bar ar ôl gair o'r arysgrif adnabyddus gan y bardd Gwyneth Lewis, sydd i'w weld ar flaen yr adeilad. Mae heulwen Bae Caerdydd yn tywynnu drwy'r ffenestri nodedig yn ystod y dydd, a gyda'r nos gallwn drefnu eu bod yn cael eu goleuo yn eich lliwiau corfforaethol chi, gan roi tamaid o 'waw' ffactor i'ch digwyddiad.**

Mae'r mannau unigryw a nodedig yma yn lleoliadau trawiadol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad preifat neu gorfforaethol. Maen nhw'n boblogaidd ar gyfer digwyddiadau llai, arddangosfeydd, digwyddiadau lansio cynnyrch neu fel ardal luniaeth ar gyfer cynadleddau preifat.









## GWYBODAETH BWYSIG

### BAR AWEN

**Capasiti:**
Derbyniad/Arddangosfa: 400
Gwledda: 160

**Dimensiynau:** 3873m²

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Sgriniau teledu gyda'r gallu i gyflwyno PowerPoint.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r ail lawr.
Mynediad i far preifat.

### BAR HORIZONS

**Capasiti:** 250 o bobl ar gyfer derbyniad â diodydd lle mae pobl yn sefyll

**Dimensiynau:** 3606m²

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Sgriniau teledu gyda'r gallu i gyflwyno PowerPoint.

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r pedwerydd llawr.
Mynediad i far preifat.

### BAR STONES

**Capasiti:** 250 o bobl ar gyfer derbyniad â diodydd lle mae pobl yn sefyll

**Dimensiynau:** 3763m²

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Sgriniau teledu gyda'r gallu i gyflwyno PowerPoint

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:**
Mynediad drwy lifft i'r pumed llawr.
Mynediad i far preifat.

# THEATR DONALD GORDON





**Theatr Donald Gordon, ein prif fan perfformio, yw ail lwyfan mwyaf Ewrop, ac mae ymhlith theatrau gorau'r byd.**

Mae'n croesawu sioeau theatr gerdd o'r radd flaenaf, sydd wedi ennill gwobrau, yn syth o'r West End, ac mae'n llwyfan i berfformiadau pwerus Opera Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â dawns, drama a mwy. Mae'r awditoriwm o safon fyd-eang yn lleoliad godidog ar gyfer digwyddiadau corfforaethol a phreifat ac mae'n sicr o gynnig profiad cofiadwy i'ch gwesteion.

Mae Theatr Donald Gordon wedi croesawu rhai o ddigwyddiadau mwyaf Cymru, megis ciniawau gwobrau, cyfarfodydd blynyddol, cynadleddau, seremonïau graddio ac arddangosfeydd, ac mae hefyd wedi cael ei defnyddio ar gyfer lleoliad ffilmio ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu pwysig.

Mae'r profiad o gynnal cinio ar y llwyfan – gyda holl oleuadau'r awditoriwm yn pefrio – yn brofiad wirioneddol arbennig, lle gall gwesteion ddilyn yn ôl traed llawer o berfformwyr byd-enwog.


## GWYBODAETH BWYSIG

**Capasiti:**
Theatr/maint yr awditoriwm: 1897
Derbyniad ar y llwyfan: 700
Gwledd ar y llwyfan: 550
Cabaret ar y llwyfan: 450
Ystafell ddosbarth ar y llwyfan: 400

**Dimensiynau'r llwyfan:** 1024m$^2$

**Cyfleusterau technegol:** Wi-Fi. Llwyfan, system sain a goleuo

**Cyfleusterau eraill a hygyrchedd:** Mae bariau a thoiledau yn agos i'r Theatr Donald Gordon ar bob lefel. Mae 22 o lefydd i gadeiriau olwyn yn yr awditoriwm ac mae toiledau hygyrch ar bob llawr. Gellir cyrraedd pob lefel o'r theatr mewn lifft, ac mae hefyd gennym system dolen sain a chyfleusterau capsiynu.



# EIN FFASÂD EICONIG

AR Y TO

**Mae gan ein to olygfeydd trawiadol dros y bae, y Senedd a Phlas Roald Dahl – y man perffaith i ffilmio neu gymryd lluniau o wyliau a digwyddiadau.**





**Does gan yr un adeilad arall ar y blaned ffasâd tebyg i ni. Mae'r arysgrif ddwyieithog gan Gwyneth Lewis yn cynnwys llythrennau dwy fedr o uchder y gellir eu goleuo mewn amryw o liwiau i gyd-fynd â'ch digwyddiad chi.**

Mae blaengwrt yr adeilad yn rhoi cefnlun perffaith ar gyfer lansio brand neu gynnal arddangosfa symudol. Mae Bae Caerdydd yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn, gyda 1.4 miliwn yn dod drwy ein drysau ac yn ymweld â Chanolfan Mileniwm Cymru.

Rydyn ni wedi gweithio gyda brandiau masnachol, Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a sefydliadau diwylliannol i gyflwyno profiadau VR dros dro, cerbydau ynni gwyrdd a hyd yn oed dart enfawr i filoedd o bobl sy'n pasio'r adeilad.

# PARTNERIAID CREADIGOL

**Ymunwch â ni fel aelod corfforaethol a mwynhewch becyn o fuddion a fydd yn ehangu ar brofiad a llesiant eich staff. Byddwch chi hefyd yn cyrraedd ein cynulleidfaoedd unigryw ac yn ein cefnogi ni i sicrhau bod y celfyddydau yn ffynnu yng Nghymru.**

Caiff pecynnau eu teilwra'n arbennig, ac maen nhw'n gallu cynnwys:

- Y seddi gorau ar gyfer sioeau sydd wedi gwerthu allan
- Dyraniad o docynnau
- Gostyngiadau a chystadlaethau arbennig i gefnogwyr corfforaethol
- Mynediad i Copr, ein lolfa breifat i aelodau
- Y gallu i logi mannau yn ein hadeilad ar gyfer digwyddiadau, partion i staff ayyb ar gyfraddau corfforaethol
- Profiadau cefn llwyfan, digwyddiadau arbennig a mwy ar gyfer uwch staff a gwesteion
- Cydnabyddiaeth
- Cyfleoedd i gefnogi prosiectau megis Platfform neu gynyrchiadau yn strategol

A llawer mwy!
Ymholwch heddiw drwy gysylltu â partner@wmc.org.uk



# CYRRAEDD CANOLFAN MILENIWM CYMRU

**Wedi'i lleoli ger glannau Bae Caerdydd, gallwch gyrraedd Canolfan Mileniwm Cymru mewn car, ar drên, ar feic neu hyd yn oed mewn cwch**

**Cyrraedd ar y Ffordd** Mae'n hawdd ein cyrraedd ni o du allan i Gaerdydd, drwy ddilyn yr M4. Os ydych chi'n dod **o'r gorllewin**, gadewch yr M4 wrth gyffordd 33 ac ymunwch â'r A4232. **O'r gogledd**, dilynwch yr A470 tuag at Gaerdydd a dilynwch arwyddion ar gyfer Bae Caerdydd. **O'r dwyrain**, gadewch yr M4 wrth gyffordd 29 ac ymunwch â'r A48. Dilynwch arwyddion ar gyfer Bae Caerdydd a Chanolfan Mileniwm Cymru.

**Parcio** Mae sawl maes parcio ym Mae Caerdydd. Mae **Q-Park Bae Caerdydd** gyferbyn â Chanolfan Mileniwm Cymru ar Stryd Pierhead ac mae'n cynnig pris gostyngol i'n cwsmeriaid. Mae yna hefyd feysydd parcio yng Nghanolfan y Ddraig Goch, Cei'r Fôr Forwyn ac ar Stryd Havannah.

**Parcio i Bobl Anabl** Mae nifer cyfyngedig o fannau parcio dan do i'n hymwelwyr anabl ar gael i'w harchebu. Mae mynediad iddynt ar ochr ein hadeilad o Stryd Pierhead.


**Ar Fws** Mae **Bws Caerdydd** yn gweithredu sawl gwasanaeth i Fae Caerdydd a'r cyffiniau ac mae safle bws y tu allan i fynedfa Canolfan Mileniwm Cymru. Mae'r **BayCar** yn mynd yn uniongyrchol i ganol Caerdydd. Mae llwybrau bws eraill yn cysylltu ledled y ddinas; ewch i wefan Bws Caerdydd i drefnu eich taith.

**Ar Drên** Mae **Great Western Railway (GWR)** yn rhedeg gwasanaethau rhwng y gorllewin a gorsaf Paddington yn Llundain gan stopio yng Nghaerdydd Ganolog, tra bod **Trafnidiaeth Cymru** yn gweithredu gwasanaethau ledled Cymru.

**Mewn Cwch** Mae **AquaBus** yn rhedeg gwasanaeth bws dŵr sy'n teithio o Gastell Caerdydd i'r bae bob awr.

**Ar Feic** Mae llwybr beicio Taith Taf yn cysylltu Bae Caerdydd a chanol y ddinas.

**CANOLFAN MILENIWM CYMRU, PLAS BUTE, CAERDYDD, CF10 5AL**




# CIPOLWG: CANLLAW ARCHEBU

Mae hygyrchedd wrth wraidd popeth a wnawn. Gallwn ni eich cefnogi chi i ddiwallu anghenion eich gwesteion yn eich digwyddiad drwy helpu i ddarparu sain ddisgrifiad, opsiynau celfi, cyfieithu ar y pryd, dolen sain a dehongliad BSL.

**Mae'r tabl hwylus yma yn dangos yr holl fannau y gellir eu llogi yn ein hadeilad, yn ogystal â'u capasiti a'u dimensiynau, er mwyn i chi ddod o hyd i'r lle perffaith ar gyfer eich digwyddiad chi.**

Gellir darparu ystafell gotiau ym mhob gofod.

Siaradwch â ni am ein partneriaid teithio a llety i hawlio gostyngiadau ar gyfer eich gwesteion.

**Gwybodaeth Archebu:**
Rydyn ni'n adeilad cyhoeddus prysur gyda rhaglen dreigl o theatr gerdd, profiadau digidol, sioeau cabaret a gwyliau, felly mae'n bwysig cysylltu cyn gynted â phosib. Byddwn ni'n hapus i'ch tywys o gwmpas. Cysylltwch â ni drwy e-bostio **spaces@wmc.org.uk**

| Gofod | Sefyll | Theatr | Ystafell Bwrdd | Bar Preifat | Llwyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| Cabaret | 230 | 150 | Na | Oes | Oes |
| Ystafell Preseli | 130 | 80 | Na | Nac oes | Nac oes |
| Copr | 30 | 22 | 10 | Oes | Nac oes |
| Glanfa | 500 | 350 | Na | Ar gael | Oes |
| Ffwrnais | 400 | 160 | Na | Oes | Ar gael |
| Theatr Donald Gordon | Yn sefyll ar y llwyfan 400 | 1897 | Na | Ar gael | Oes |
| Stiwdio Weston a'r Ystafelloedd Ymarfer | 200 | 200 | Na | Ar gael | Oes |
| Ystafell Japan | 45 | 70 | 26 | Nac oes | Nac oes |
| Bar Awen | 400 | 160 yn eistedd | Na | Oes | Nac oes |
| Bariau Horizons a Stones | 250 | Na | Na | Oes | Nac oes |

# CROESO I GANOLFAN MILENIWM CYMRU

**G LLAWR GWAELOD / GROUND FLOOR**

1 Siop
2 Ffwrnais
3 Lolfa
4 Caffi
5 Bar One
6 Cabaret
7 Stiwdio Scratch
8 Tŷ Cerdd
9 Radio Platfform
10 Ystafell Dawel / Quiet Room
11 Two Rhythms
12 Bocs
13 Drws y Llwyfan / Stage Door

**1 LEFEL 1 / LEVEL 1**

14 Bar One
15 Stiwdio Wolfson Studio
16 Stiwdio Weston Studio
17 Ystafell Ymarfer / Rehearsal Room
18 Copr (Lolfa i aelodau / Members' lounge)

**2 LEFEL 2 / LEVEL 2**

19 Theatr Donald Gordon / Donald Gordon Theatre
20 Bar Awen Bar
21 Ystafell Preseli Room
22 Neuadd Hoddinott y BBC / BBC Hoddinott Hall

**3 LEFEL 3 / LEVEL 3**


23 Ystafell Japan Room

**4 LEFEL 4 / LEVEL 4**

24 Bar Horizons Bar

**5 LEFEL 5 / LEVEL 5**

25 Bar Stones Bar



CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Rhif elusen: 1060458